COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 9fed o FAI 2022 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS.

Presennol: Linda Williams (yn y gadair), Tyssul Evans,Margaret Rees,,Aled Williams,Ian Evans,Tracey James,Meic Bowen, Alan Lewis ,Delyth Thomas a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Geraint Rosser a Caroline Williams

Materion Personol

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd yn arbennig Delyth Thomas a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf. Diolchwyd i Geoff Hewitt ,cyn Cynghorwr am ei wasanaeth dros dymor hir fel cynrychiolydd Ward Pontiets.

2806 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 10/05/21 fel rhai cywir.

2807 CADEIRYDD 2022-2023
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Ian Evans yn Gadeirydd.

2808 IS-GADEIRYDD 2022-2023
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Tyssul Evans yn Is-gadeirydd

2809 LWFANS Y CADEIRYDD
Penderfynwyd bod y Cadeirydd i dderbyn Lwfans o £400 tuag at dreuliau'r swydd.

2810 Diolchiadau
Cyfeiriodd y Cadeirydd presennol ei bod wedi cael blwyddyn brysur a diolchodd i'r Is-gadeirydd a'r Cyngor yn gyffredinol am eu cydweithrediad parod. Diolchodd hefyd i'r Clerc,Glyndwr Prideaux am ei wasanaeth trylwyr a chydwybodol yn ystod y flwyddyn arbennig hon.

Diolchwyd iddi hi fel Cadeirydd am ei arweiniad doeth ac am lywio'r amryw Gyfarfodydd mor drefnus yn ystod flwyddyn ei lywyddiaeth.

2811 Ethol Aelodau'r Is-bwyllgorau

Cyllid a Chynllunio
Cadeirydd y Cyng.Ian Evans, Cyng.Tyssul Evans (Is-gadeirydd),Cyng.Linda Williams (Cyn Cadeirydd), Cyng. Delyth Thomas, Cyng. Alan Lewis, Cyng. Tyssul Evans,

Iaith:
Cadeirydd y Cyng.Ian Evans, Cyng. Aled Williams, Cyng. Heddwyn Jones, Cyng. Linda Williams,,Cyng.Caroline Williams, Cyng.Tracey James.

Pwyllgor Cyswllt Cwar Torcoed:
Cyng. Margaret Rees,Cyng. Caroline Williams,Cyng. Alan Lewis,Cyng. Tyssul Evans.

Pwyllgor y Wefan:
Cyng. Linda Williams,Cyng.Alan Lewis, Cyng. Ian Evans

Pwyllgor y Frigâd Dan (Pontiets)
Cyng,Geraint Rosser,Cyng.Meic Bowen,Cyng.Heddwyn Jones.

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 19.30 y.n.

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……